**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â recordiad sain o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd J A Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W J Chorlton, E G Davies, R Dew, Jim Evans, Vaughan Hughes, C McGregor, R L Owen, Eric Roberts a H W Thomas |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, K P Hughes a W T Hughes |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr J.V. Owen – 7.1, Bob Parry OBE – 7.2 |

1.00 p.m. – 1.35 p.m.

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 3 Ebrill, 2013. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLEOEDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safleoedd yn dilyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 3 Ebrill, 2013. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Roedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad ar geisiadau 7.1 and 12.3. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | **6.1 39C285D – Cais llawn i godi 17 annedd ar dir yn Lon Gamfa, Porthaethwy**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a thynnu'r cais o'r rhaglen hyd nes y bydd argymhelliad ar gael.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU YN CODI** |
| PENDERFYNIAD | 7.1 **19C313A – Cais amlinellol i godi 22 o anheddau a chodi mynedfa newydd ar dir rhwng Pentrefelin a Stad Waenfawr, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais ar gyngor y Prif Weithredwr oherwydd y ddealltwriaeth y byddai penderfynu ar y cais cyn yr etholiadau lleol yn fater cynhennus ac, o bosib, yn tynnu'n groes i ganllawiau'r Cyngor mewn perthynas â'r cyfnod etholiad.**<br><br>7.2 **48C182 – Cais amlinellol i godi annedd fforddiadwy, adeiladu mynedfa i gerbydau a gosod gwaith trin ar dir ger Bryn Twrog, Gwalchmai**<br><br>**PENDERFYNWYD cadarnhau'r penderfyniad i gymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad y swyddog, yn amodol ar orfodi amod A106 ar gyfer ty 'fforddiadwy' mewn perthynas â'r cais.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau Economaidd yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau Economaidd yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU SY'N GROES I BOLISI** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau Economaidd yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 16C194 – Cais llawn i gadw'r lle caled a dau dwnel polythen ynghyd â chodi un twnel polythen, cwt potiau ac estyniad i'r adeiladau allanol yn Tan Rallt, Bryngwran.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog, gyda'r amodau yn yr adroddiad a chydag amod ychwanegol na chaniateir defnydd adwerthu neu gyfanwerthu o'r safle.**<br><br>**11.2 36C206E – Cais llawn i godi garej ar wahân yn Cefn Canol, Llangristiolus**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau yn yr adroddiad.**<br><br>**11.3 40C133C – Cais i ddileu amod (04) a gwaith altro i adeiladu ffenestr ddormer yn Graianog, Dulas**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog, gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad.**<br><br>**11.4 43C188A – Cais llawn i godi sied amaethyddol newydd ar dir yn Pwll Preban, Rhoscolyn**<br><br>**PENDERFYNWYD dirprwyo'r cais i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) i'w gymeradwyo, ar yr amod na cheir unrhyw wrthwynebiadau cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| --- | --- |
| PENDERFYNIAD | **12.1 19C792F – Cais llawn i osod decin caled yn lle tri llwyfan pysgota ynghyd â gwaith altro ac estyn ar dri llwyfan pysgota ar dir ar lôn Parc Gwledig y Morglawdd, Porth Namerch, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad.**<br><br>**12.2 20C289 - Cais llawn i osod cloch 'Llanw ac Amser' ynghyd â ffrâm cefnogol ar y blaendraeth ger yr harbwr, Cemaes**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio'r cais fel bod modd ymgynghori mewn perthynas â lefelau sŵn.**<br><br>**12.3 42C61G – Cael gwared o'r garafan breswyl a chodi annedd ddeulawr o fewn y cwrtil preswyl yn Y Carafan, Ty'r Ardd, Pentraeth**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio'r cais er mwyn ymgynghori gyda'r cyhoedd gan fod y cais yn tynnu'n groes i bolisi.**<br><br>**12.4 47LPA602A/CC – Cais llawn i godi sied amaethyddol ar gyfer gwartheg godro yn Tremoelgoch Fawr, Llanfigael**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog a chyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| --- | --- |
| PENDERFYNIAD | **13.1 43C188 – Rhybudd ymlaen llaw am ddymchwel sied yn Pwll Preban, Rhoscolyn**<br><br>**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth fel y cafodd ei chyflwyno.** |